**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-919
Ein cyf/Our ref LG/07186/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

government.committee.business@llyw.cymru

23 Hydref 2019

Annwyl Janet

Diolch am eich e-bost ar 15 Hydref ynglŷn â deiseb P-05-919: Peidiwch â chyflwyno trwyddedu ar gyfer cŵn, cathod a cheffylau sy'n cael eu dangos mewn sioeau, a dderbyniwyd gan 'Our Dogs'.

Byddwch yn gwerthfawrogi ein bod mewn cyfnod ymgynghori, ac felly ni allaf wneud sylwadau ond ar y cynigion drafft fel y maent, ac nid gofynion terfynol y cynllun trwyddedu. Gallai'r rhain newid yn dibynnu ar yr adborth a dderbynnir o'r ymgynghoriad.

Rwy'n ymwybodol o'r ymgyrch a gafodd ei chychwyn gan The Kennel Club, a'i chyhoeddi gan 'Our Dogs, sydd wedi rhoi'r argraff y bydd angen i bobl sy'n dangos eu cŵn yng Nghymru a'r tu hwnt gael trwydded o dan y cynllun arfaethedig. Nid dyma'r achos. Nid yw'r rheoliadau fel y maent wedi cael eu drafftio ar hyn y bryd yn sôn am gŵn sy'n cael eu dangos mewn sioeau, a dim ond i ddangos enghraifft o weithgaredd sy'n ymwneud ag anifeiliaid anwes lle na ddylid ystyried cyflwyno trwyddedu y mae'r canllawiau yn cyfeirio at sioeau cŵn lleol; nid yw hyn yn ceisio awgrymu y byddai trwyddedu'n cael ei gyflwyno ar gyfer sioeau cŵn eraill, a bydd geiriad y pwynt hwn yn cael ei ystyried ar ôl yr ymgynghoriad os yw'r canlyniadau'n awgrymu bod angen gwneud hyn. Yn yr un modd, nid er mwyn rhoi enghreifftiau o anifeiliaid anwes y dylid cyflwyno trwyddedu ar eu cyfer y mae'r rheoliadau'n cyfeirio at gathod neu geffylau sy'n cael eu dangos mewn sioeau

Rwy'n frwd dros y sector twristiaeth a busnesau amaethyddol yng Nghymru, a chredaf y bydd y cynllun trwyddedu yn rhoi sicrwydd i ymwelwyr â Chymru a'i thrigolion fel ei gilydd ein bod yn cymryd lles anifeiliaid o ddifri gan gynnwys y rhai sy'n cael eu dangos.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi bod yn glir drwy gydol y proses o ddatblygu'r polisi y dylai'r cynllun trwyddedu hwn fod yn gymesur ond yn addas i'r diben; ni fwriedir iddo greu baich diangen ar y rhai mae'n bosibl y bydd angen trwydded arnynt. Mae'r dystiolaeth a ddarperir yn ystod y broses ymgynghori yn hanfodol i hysbysu swyddogion o'r effaith y gall y cynllun ei chael ar bobl a bioamrywiaeth Cymru.

Yn gywir

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs